**Telerau ac Amodau Cyflwynwch eich Selsig Gorau 2023**

Darllenwch a chytunwch ar y telerau ac amodau canlynol cyn cymryd rhan yn y gystadleuaeth:

- Rwy'n cydnabod bod y gystadleuaeth hon yn agored i aelodau Porc Blasus yn unig, a deallaf y bydd fy nghais yn cael ei ddiarddel os nad wyf yn aelod.
- Byddaf yn cyflwyno uchafswm o un cynnyrch (6 x selsigen amrwd) i'r gystadleuaeth. Bydd angen anfon selsig at Hybu Cig Cymru ar 4 neu 5 Gorffennaf 2023.
- Os byddaf yn cyrraedd y rhestr fer, rwy'n cydnabod y bydd fy selsigen yn cael ei beirniadu yn Sioe Frenhinol Cymru ddydd Iau 27 Gorffennaf gan ein panel o feirniaid, lle bydd enillydd terfynol yn cael ei gyhoeddi.
- Os caf fy newis fel enillydd, rwy'n cydnabod y bydd fy nghais yn cael ei gyflwyno'n awtomatig ar gyfer Gwobrau Siop Gigydd y Flwyddyn a digwyddiad Pencampwr Pencampwyr Selsig ym mis Chwefror 2024.
- Rwy'n rhoi caniatâd i'm henw, enw'r cwmni, enw, fideo a delwedd o'r cynnyrch i gael eu defnyddio mewn deunydd cyhoeddusrwydd ac ar draws tudalennau cyfryngau cymdeithasol Porc Blasus a gyda'r wasg a'r cyfryngau os byddaf yn cyrraedd y rhestr fer a/neu'n cael fy newis fel enillydd y gystadleuaeth.
- Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw dydd Gwener 30 Mehefin, gyda samplau'n cael eu hanfon ar 4 neu 5 Gorffennaf. Bydd yr ymgeiswyr sy'n cyrraedd y rhestr fer yn cael eu hysbysu ddydd Gwener 7 Gorffennaf.